

---

# Diweddariad Cysylltu'r Gwledydd

Gwanwyn 2023

---

**ADRODDIAD:**

Dyddiad cyhoeddi: 19 Mai 2023

# Cynnwys

---

## Adran

1. Trosolwg	1
2. Darpariaeth band eang sefydlog ar gyfer busnesau bach a chanolig	7
3. Dangosfyrddau	9

## Atodiad

A1. Methodoleg dadansoddi busnes	16
----------------------------------	----

# 1. Trosolwg

Dyma'r diweddariad dros dro cyntaf i'n hadroddiad blynyddol [Cysylltu'r Gwledydd](#), a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2022. Mae'n seiliedig ar y ddarpariaeth symudol ac argaeledd band eang sefydlog ar draws y DU fel yr oedd y sefyllfa ym mis Ionawr 2023. Rydym hefyd yn cynnwys diweddariad ar y ddarpariaeth ar gyfer busnesau bach a chanolig, y gwnaethom adrodd arno ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2021.

## Prif ganfyddiadau

**Mae nifer y cartrefi a all gael band eang cyfradd gigabit** wedi cynyddu i bron 21.9 miliwn o gartrefi (73% o holl gartrefi'r DU), i fyny o 20.8 miliwn (70%) ers ein diweddariad diwethaf.

**Mae darpariaeth ffeibr llawn yn parhau i gynyddu'n gyflym i fyny i 48% o 42%**, cynnydd o chwe phwynt canran yn y pedwar mis rhwng mis Medi 2022 a mis Ionawr 2023.

**Mae darpariaeth band eang cyflym iawn ar draws y DU** yn gyffredinol yn parhau ar 97%, ond gyda Gogledd Iwerddon yn gweld cynnydd o bron i ddau bwynt canran mewn darpariaeth gyflym iawn tra bo'r Alban a Chymru ill dau wedi elwa o gynnydd o un pwynt canran.

**Mae darpariaeth band eang ffeibr llawn a chyflym iawn cyfradd gigabit ar gyfer busnesau bach a chanolig hefyd wedi cynyddu** ers y tro diwethaf i ni adrodd ar hyn ym mis Rhagfyr 2021. Ond mae'r ddarpariaeth ar gyfer busnesau bach a chanolig yn dal yn is o'i gymharu â rhai eiddo preswyl – mae'r ddarpariaeth ffeibr llawn ar gyfer busnesau bach a chanolig yn 43%, a'r ddarpariaeth cyfradd gigabit ar 70%.

**Mae nifer yr adeiladau nad ydynt yn gallu cael band eang teilwng**, wrth ystyried llinell sefydlog a di-wifr sefydlog, wedi gostwng o 80,000 i 68,000 o adeiladau ers ein hadroddiad ym mis Rhagfyr 2022.

**Mae darpariaeth symudol yn dal yn sefydlog** ac mae gweithredwyr yn dechrau cyflwyno darpariaeth i ardaloedd newydd drwy'r cynllun **Rhwydwaith Gwledig a Rennir**, mewn cytundeb a wnaed gyda Llywodraeth y DU yn 2020. O ganlyniad i hyn, mae disgwyl i ddarpariaeth genedlaethol gynyddu yn ystod y blynyddoedd nesaf. Mae darpariaeth 5G yn parhau i symud ymlaen yn raddol ac yn gyson fel y gwelir o'r ffigurau darpariaeth yn y tablau isod, gydag 82% o adeiladau yn gallu cael signal 5G yn yr awyr agored gyda lefel uchel o hyder.

Fel yr oeddem yn ei wneud gyda diweddariadau blaenorol, rydym wedi cyhoeddi [adroddiad rhyngweithiol](#) sy'n cynnwys y data diweddaraf a data hanesyddol.

Rydym hefyd wedi defnyddio'r data yn yr adroddiad hwn i ddiweddarau ein [gwiriwr darpariaeth band eang a symudol](#).

## Y prif ganfyddiadau - Band eang sefydlog

**Band eang cyfradd gigabit:** mae argaeledd band eang sy'n gallu darparu cyflymder gigabit<sup>1</sup> i ddefnyddwyr yn parhau i wella'n gyflym, gyda bron i 21.9 miliwn o gartrefi yn y DU<sup>2</sup> (73%) nawr yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau cyflymach hyn, i fyny o 20.8 miliwn (70%) a nodwyd yn ein hadroddiad ym mis Rhagfyr 2022 a chynnydd o 7 pwynt canran mewn blwyddyn. Mae hyn wedi cael ei sbarduno gan y ffaith bod nifer o weithredwyr rhwydwaith yn parhau i gyflwyno band eang ffeibr llawn, gan ddarparwyr sydd wedi hen ennill eu plwyf a rhai sy'n newydd i'r farchnad. Ochr yn ochr â hynny, mae Virgin Media O2 wedi cyhoeddi cynlluniau i uwchraddio ei rwydwaith cebl i ffeibr llawn yn y cyfnod hyd at 2028.<sup>3</sup>

**Darparu ffeibr llawn:** Mae bron i hanner cartrefi'r DU (48%) nawr yn gallu cael gafael ar wasanaethau ffeibr llawn, sy'n gynydd o 15 pwynt canran mewn blwyddyn. Mae darpariaeth ffeibr llawn yn 14.2 miliwn erbyn hyn, sy'n gynydd o'r 12.5 miliwn (42%) a adroddwyd yn ein hadroddiad ym mis Rhagfyr 2022. Mae hyn yn cael ei yrru'n bennaf drwy ddarpariaeth gan y gweithredwyr seilwaith ffeibr mwy, ond a gefnogir gan nifer o ddarparwyr llai ledled y DU sy'n gwasanaethu cymunedau a rhanbarthau unigol. Mae rhai o'r darpariaethau hyn yn elwa o amrywiaeth o gynlluniau cyllido'r sector cyhoeddus a amlinellir gennym isod.

**Band eang cyflym iawn** (cyflymder llwytho i lawr sydd o leiaf 30 Mbit yr eiliad): Mae cyflwyno band eang cyflym iawn ledled y DU yn parhau i dyfu er ei fod yn arafach (mae'r ddarpariaeth yn dal ar 97% o gartrefi'r DU). Efallai fod hyn oherwydd yr anhawster ychwanegol i gyrraedd y 3% olaf o eiddo, er y gallai cynlluniau sy'n derbyn arian cyhoeddus wella hyn.

**Band eang teilwng** (cyflymder llwytho i lawr sydd o leiaf 10 Mbit yr eiliad a llwytho i fyny sy'n 1 Mbit yr eiliad): mae mwyafrif helaeth yr holl eiddo yn y DU yn gallu manteisio ar fand eang teilwng. Mae nifer yr eiddo (preswyl a masnachol) nad ydynt yn gallu cael gwasanaeth band eang teilwng drwy linell sefydlog yn oddeutu 435,000 (i lawr i 1.4%), wedi gostwng o oddeutu hanner miliwn ers ein hadroddiad ym mis Rhagfyr 2022<sup>4</sup>.

Mae gwasanaethau band eang hefyd ar gael drwy rwydweithiau Mynediad Di-wifr Sefydlog (FWA), a ddarperir drwy rwydweithiau symudol neu drwy Ddarparwyr Gwasanaeth Rhynggrwyd Di-wifr (WISPs). Os byddan nhw'n cael eu rheoli'n dda, gall rhwydweithiau Mynediad Di-wifr Sefydlog ddarparu gwasanaeth band eang teilwng, a gellir eu defnyddio fel technoleg rhwydwaith amgen lle nad oes gan ddefnyddwyr fynediad at gysylltiad band eang teilwng dros rwydwaith sefydlog. Rydym yn parhau i gasglu data gan Ddarparwyr Gwasanaeth Rhynggrwyd Di-wifr ac yn seiliedig ar y ddarpariaeth a adroddir gan y darparwyr hyn, mae hyn yn dal yn 7% o eiddo sy'n gallu cael gwasanaeth band eang teilwng gan Ddarparwyr Gwasanaeth Rhynggrwyd Di-wifr (yr un fath â'r hyn

---

<sup>1</sup> Mae rhwydweithiau cyfradd gigabit yn cynnwys rhwydweithiau ffeibr llawn yn ogystal ag unrhyw rwydwaith sy'n gallu cynnig o leiaf 1 Gbit yr eiliad o gyflymder llwytho i lawr (fel y fersiwn ddiweddaraf o dechnoleg rhwydwaith cebl Virgin Media O2 – DOCSIS 3.1).

<sup>2</sup> Noder ein bod yn adrodd ar eiddo preswyl (cartrefi) o ran darpariaeth ffeibr llawn, cyfradd gigabit a darpariaeth gyflym iawn, ond rydym yn adrodd ar eiddo masnachol a phreswyl o ran band eang 'teilwng'.

<sup>3</sup> [UK Virgin Media O2 announces 2028 fibre upgrade plan \(libertyglobal.com\)](https://www.libertyglobal.com/news/uk-virgin-media-o2-announces-2028-fibre-upgrade-plan)

<sup>4</sup> [Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd Rhagfyr 2022](#)

sydd yn ein hadroddiad ym mis Rhagfyr 2022). Mae darpariaeth Mynediad Di-wifr Sefydlog gan rwydweithiau symudol sy'n gallu darparu band eang teilwng ar gael i bron 95% o eiddo.

Gan ystyried yr amcangyfrifon darpariaeth a roddwyd gan ddarparwyr Mynediad Di-wifr Sefydlog, rydym yn amcangyfrif ar hyn o bryd y gallai oddeutu 68,000 o eiddo fod yn weddill, nad oes ganddynt fynediad at wasanaeth band eang teilwng o rwydwaith sefydlog neu rwydwaith Mynediad Di-wifr Sefydlog. Mae hyn wedi gostwng o'n hamcangyfrif o 80,000 yn ein hadroddiad ym mis Rhagfyr 2022.

O'r rhain, nid oes disgwyl i oddeutu 54,000 o eiddo fod yn rhan o'r gwaith o gyflwyno cynlluniau a ariennir gan arian cyhoeddus yn ystod y deuddeg mis nesaf, i lawr o 65,000 yn ein hadroddiad ym mis Rhagfyr 2022. Efallai y bydd yr eiddo hyn yn gymwys ar gyfer y cynnyrch Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol (USO) band eang yn amodol ar ragor o archwiliadau a chadarnhad gan y darparwyr gwasanaeth cyffredinol (BT a KCOM).

Mae'r ffigurau uchod yn dangos argaeledd gwasanaethau band eang ledled y DU, ac mae ffigurau allweddol wedi'u nodi yn y dangosfyddau isod; byddwn yn adrodd yn fwy manwl ar y nifer sy'n defnyddio gwasanaethau band eang yn ein hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd blynyddol ar gyfer 2023.

## Y prif ganfyddiadau - Symudol

Rydym yn mesur darpariaeth symudol mewn ffordd sy'n adlewyrchu profiad tebygol pobl wrth ddefnyddio eu ffonau symudol.<sup>5</sup>

Ni fu cynnydd sylweddol yn y ddarpariaeth ers ein diweddariad diwethaf, ond mae'r diwydiant yn parhau i ddatblygu ei ôl troed darpariaeth.

**4G:** Ni welwyd newidiadau sylweddol yn darpariaeth y rhwydweithiau symudol 4G ar draws y DU dros y cyfnodau adrodd diwethaf. Rhagwelir fod gan oddeutu 92% o ehangdir y DU ddarpariaeth 4G dda yn yr awyr agored gan o leiaf un gweithredwr, ac mae'r ardal hon yn cynnwys bron yr holl eiddo yn y DU. Disgwylir i hyn godi i 95% erbyn diwedd 2025 o ganlyniad i'r Rhwydwaith Gwledig a Rennir<sup>6</sup>. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer Cymru a'r Alban yn sylweddol is ar hyn o bryd. Dylid nodi bod gweithredwyr rhwydweithiau symudol (MNO) unigol wedi ymrwymo i sicrhau darpariaeth rhwng 85% ac 88% yng Nghymru erbyn 2027<sup>7</sup> dan fuddsoddiad SRN Llywodraeth y DU, a rhwng 82% ac 85% yn yr Alban o gyfuniad o hyn a rhaglen mewnlenwi 4G yr Alban.

**Mannau di-gyswllt 4G:** Yn y DU, mae manau di-gyswllt daearyddol ac ar ffyrdd (hynny yw, ardaloedd lle nad oes gwasanaethau 4G da ar gael gan unrhyw weithredwr symudol). Mae manau di-gyswllt daearyddol wedi aros yr un fath ers ein hadroddiad ym mis Rhagfyr 2022, sef 8%. Mae'r ddarpariaeth ar ffyrdd yn parhau yr un fath i raddau helaeth, gydag amcangyfrif mai dim ond 4% o'r holl ffyrdd sy'n fannau di-gyswllt mewn cerbydau. Mae hyn yn amrywio'n sylweddol ar draws gwledydd unigol, yn enwedig yn yr Alban a hefyd yng Nghymru. Mae Cymru wedi elwa o ostyngiad

<sup>5</sup> Mae diffiniadau manwl ar gael yn [Cysylltu'r Gwledydd 2022: Methodoleg \(ofcom.org.uk\)](#)

<sup>6</sup> [SN07069.pdf \(parliament.uk\)](#)

<sup>7</sup> Mae hwn wedi cael ei ddiwygio ar gyfer 2026.

pwytnt canran mewn manau di-gyswllt daearyddol ers ein hadroddiad ym mis Rhagfyr, ac rydym yn priodoli hynny i'r cynllun Rhwydwaith Gwledig a Rennir (SRN).

**Darpariaeth galwadau a negeseuon testun:** Fel gyda 4G, ni fu fawr o newid at ei gilydd yn y ddarpariaeth a ragwelwyd dros y cyfnodau adrodd blaenorol. Mae ystod y ddarpariaeth a ragwelir gan weithredwyr rhwydweithiau symudol (MNO) yn amrywio o 85-93% o ehangdir y DU, yn dibynnu ar y gweithredwr. Ar ben hynny, rhagwelir y bydd gan 99% o holl eiddo'r DU ddarpariaeth ar gyfer galwadau llais yn yr awyr agored gan bob gweithredwr rhwydwaith symudol.

**Mannau digyswllt galwadau/negeseuon testun:** Yn yr un modd, nid yw'r ardaloedd lle nad yw pobl yn gallu gwneud galwad neu anfon neges destun gan unrhyw weithredwr (mannau di-gyswllt) wedi newid, gydag oddeutu 4% o ddaearyddiaeth y DU yn cael ei amcangyfrif yn fan digyswllt. Amcangyfrifir bod oddeutu 2% o ffyrdd y DU yn fannau digyswllt ar gyfer galwadau a negeseuon testun sy'n cael eu gwneud neu eu derbyn mewn cerbyd. Fel sy'n wir am 4G, mae amrywiadau amlwg rhwng y gwledydd unigol; er enghraifft, mae'r manau digyswllt daearyddol ar draws yr Alban yn parhau'n uwch nag yng ngweddill y DU, sef oddeutu 10%.

**5G:** Rydyn ni'n parhau i adrodd ar ddarpariaeth 5G (adeiladau awyr agored) o 'Pob Gweithredwr Rhwydwaith Symudol' ac o 'O leiaf un Gweithredwr Rhwydwaith Symudol', gyda lefelau hyder y ddarpariaeth yn amrywio o uchel i uchel iawn. Mae'r ddarpariaeth gan 'O leiaf un Gweithredwr Rhwydwaith Symudol' bellach yn amrywio o 73% (hyder uchel iawn) i 82% (hyder uchel) o eiddo yn yr awyr agored, i fyny o 67% a 78% yn y drefn honno pan adroddwyd yn ein hadroddiad ym mis Rhagfyr 2022.<sup>8</sup>

## Cynlluniau ar draws y DU a'r Gwledydd sy'n cefnogi cyflwyno rhwydweithiau band eang a symudol

Mae gan y Llywodraeth uchelgais i gael band eang gigabit i o leiaf 85% o adeiladau erbyn 2025 a dros 99% erbyn 2030. Er bod disgwyl i weithredwyr telathrebu yn y rhan fwyaf o'r DU ddarparu band eang gigabit ar sail fasnachol, mae cynlluniau cyhoeddus yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gysylltu adeiladau mwy anghysbell a gwledig. Mae'r Llywodraeth yn buddsoddi £5 biliwn i lefelu'r ddarpariaeth ar gyfer adeiladau anodd eu cyrraedd<sup>9</sup>.

Mae targedau'r Llywodraeth ar gyfer gwasanaethau symudol yn cynnwys targed o 95% o ddarpariaeth ddaearyddol yn y DU ar gyfer 4G, ac ym mis Ebrill cyhoeddodd y Llywodraeth y Strategaeth Seilwaith Di-wifr lle y cyhoeddodd uchelgais newydd i'r DU gael darpariaeth 5G unigol ar draws y wlad i bob ardal boblog erbyn 2030.<sup>10</sup>

**Lloegr:** Ers ein cyhoeddiad Cysylltu'r Gwledydd ym mis Rhagfyr 2022, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi dyfarnu pedwar contract arall yn Swydd Caergrawnt, Cernyw, New Forest a Swydd Amwythig.<sup>11</sup>

---

<sup>8</sup> Nodwn fod gwaith i ddilysu rhagfynegiadau 5G newydd Gweithredwyr Rhwydwaith Symudol yn parhau i fynd rhagddo.

<sup>9</sup> [Government £5bn Gigabit programme](#)

<sup>10</sup> [UK Wireless Infrastructure Strategy - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

<sup>11</sup> [Closure Of The First Release Of Phase 3 \(Part 2\) and Second Release of Phase 3 Areas Public Reviews - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

**Yr Alban:** Mae rhaglen Reaching 100% (R100) Llywodraeth yr Alban gwerth £600m yn parhau i fynd rhagddi. Bwriad y cynllun yw cyrraedd 114,000 o adeiladau drwy dair elfen o weithgarwch: contractau R100, Cynllun Talebau Band Eang yr Alban (SBVS) a darpariaeth fasnachol barhaus. Bwriad gwreiddiol y cynllun oedd galluogi mynediad at fand eang cyflym iawn (30Mbps), ond yn ymarferol bydd holl waith adeiladu'r contract yn y De a'r Gogledd, a'r mwyafrif helaeth yng Nghanol yr Alban, yn gyfradd gigabit<sup>12</sup>.

Mae'r data diweddaraf a ddarparwyd i Ofcom gan Lywodraeth yr Alban yn dangos bod oddeutu 21,300 o gartrefi a busnesau gwledig wedi cael eu cysylltu drwy gontractau R100, ac mae 3,076 o dalebau wedi cael eu darparu gan 50 o gyflenwyr cofrestredig. Mae hyn yn cyfrif am bron i 20% o gyfanswm yr eiddo a fydd yn cael eu cysylltu erbyn mis Mawrth 2028.

Mae [Rhoglen Mewnlenwi 4G](#)<sup>13</sup> Llywodraeth yr Alban, sy'n werth £28.75m, yn gweithio ar hyn o bryd i ymestyn seilwaith a gwasanaethau 4G mewn hyd at 55 o "fannau di-gyswllt" symudol ar draws ardaloedd gwledig ac anghysbell yr Alban. Mae'r rhaglen bron â chael ei chwblhau, ar ôl cyflwyno 49 o fastiau ar draws yr Alban, gyda'r mastiau terfynol i fod i gael eu cwblhau erbyn diwedd y Gwanwyn hwn<sup>14</sup>.

Mae prosiect [Rhwydwaith Gwledig a Rennir](#)<sup>15</sup> y DU yn mynd rhagddo ochr yn ochr â'r rhaglen mewnlenwi 4G, gyda'r uwchraddio cyntaf i gael ei ariannu gan lywodraeth y DU ar gyfer mastiau gwledig yn yr Alban wedi'i gyhoeddi ar 3ydd Mai. Bydd hyn yn cyflwyno darpariaeth 4G i drigolion yn nwyrain Dumfries a Galloway, a fydd o fudd i bobl sy'n byw yn Boreland, Eskdalemuir, Lochmaben a phentrefi cyfagos eraill.

**Cymru:** Mae proses Llywodraeth Cymru o gyflwyno ffeibr llawn, gwerth £56m, gydag Openreach, hyd yma wedi cyrraedd 35,770 o eiddo na fyddent fel arall wedi cael eu cysylltu â band eang ffeibr llawn. Mae'r Gronfa Band Eang Lleol yn cefnogi awdurdodau lleol a mentrau cymdeithasol i ddarparu band eang i gymunedau cyfan. Mae'r gronfa wedi darparu cyllid grant i gynlluniau ledled Cymru gan gynnwys yn Sir Fynwy, Caerdydd a Gwynedd. Mae cynllun grant Allwedd Band Eang Cymru yn darparu rhwyd diogelwch band eang drwy ddarparu cyllid o hyd at £800 i gysylltu cartrefi unigol, busnesau a safleoedd y trydydd sector.<sup>16</sup>

Mae [Ogi](#)<sup>17</sup>, sy'n buddsoddi £200m i adeiladu rhwydwaith ffeibr llawn sy'n gallu darparu cyflymder o 10Gbps ar draws targed cam 1 of 150,000 o adeiladau yng Nghymru erbyn 2025, yn bwriadu ymestyn ei gynllun i ganol dinas Caerdydd, gan wasanaethu ardaloedd yn y ddinas lle gwelwyd twf sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Hyd yma, mae Ogi wedi cysylltu 47,500 o eiddo mewn lleoliadau ledled Cymru, gan gynnwys Hwlfordd, y Rhws, Llanilltud Fawr, Sain Tathan a'r Fenni, gyda llyfydd fel y Coed Duon, Langstone, Maesteg a Threhafor i'w dilyn yn fuan gyda chartrefi a busnesau'n cael mynediad at ffeibr i'r adeilad am y tro cyntaf.

---

<sup>12</sup> <https://www.scotlandsuperfast.com/r100-programme/about-r100/>

<sup>13</sup> [Rhoglen Mewnlenwi 4G](#)

<sup>14</sup> [EE UK Put Two New 4G Mobile Masts Live on Orkney in Scotland - ISPreview UK](#)

<sup>15</sup> [Y Rhaglen Rhwydwaith Gwledig a Rennir](#)

<sup>16</sup> Llywodraeth Cymru, [Diweddariad ar Gysylltedd Digidol yng Nghymru](#), 8 Gorffennaf 2022.

<sup>17</sup> [Gwefan Ogi](#)

**Gogledd Iwerddon:** Cafodd y contract gwerth £165 miliwn ar gyfer cyflawni cynllun ymyriad band eang Prosiect Stratum ei ddyfarnu i Fibrus Networks Ltd ym mis Tachwedd 2020. Ym mis Ionawr 2022, sicrhawyd cyllid ychwanegol o £32m<sup>18</sup> gan yr Adran dros Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg (DSIT), Adran yr Economi (DfE) a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) i gynnwys 8,500 eiddo arall o fewn cwmpas y prosiect. Mae'r adeiladau ychwanegol yn cynnwys 2,500 o eiddo anoddach eu cyrraedd a oedd y tu hwnt i gwmpas y contract gwreiddiol, yn ogystal â 6,000 eiddo arall.

Bydd cyflwyno'r rhwydwaith ffeibr llawn newydd i gyrraedd pob un o'r 85,000 eiddo, gan gynnwys yr 8,500 eiddo ychwanegol, yn parhau ar draws pedwar chwarter estynedig o adeiladu'r rhwydwaith, a disgwylir i Fibrus Networks gwblhau'r gwaith o'i gyflwyno'n llawn erbyn mis Mawrth 2025. Mae Fibrus eisoes wedi darparu seilwaith newydd i 46,000 o adeiladau.<sup>19</sup>

## Casglu ac adrodd ar ddata

Rydym yn parhau i gasglu data darpariaeth gan nifer o weithredwyr er mwyn gwella cywirdeb y data rydyn ni'n ei gyhoeddi. Cafodd data gan 24 o ddarparwyr Mynediad Di-wifr Sefydlog (Darparwyr Gwasanaeth Rhynggrwyd Di-wifr a Gweithredwyr Rhwydwaith Symudol), a 59 o weithredwyr llinellau sefydlog ei ddefnyddio i lunio'r adroddiad hwn. Rydyn ni hefyd yn parhau i gasglu data am ddarpariaeth bob pedwar mis a gwybodaeth am ddefnydd unwaith y flwyddyn.

Rydyn ni wrthi'n casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth am waith arfaethedig i adeiladu rhwydweithiau gan ddarparwyr cyfathrebiadau yn y DU, a byddwn yn cyhoeddi canlyniadau'r gweithgarwch yma maes o law.

---

<sup>18</sup> [Project Stratum extends coverage plans to additional 8,500 premises | Department for the Economy \(economy-ni.gov.uk\)](#)

<sup>19</sup> <https://www.economy-ni.gov.uk/news/project-stratum-reaches-halfway-mark-fibre-broadband-roll-out>



## 2. Darpariaeth band eang sefydlog ar gyfer busnesau bach a chanolig

Mae ein hadroddiadau ar argaeledd band eang ffeibr llawn, cyfradd gigabit a band eang cyflym iawn yn adlewyrchu'r ddarpariaeth ar gyfer eiddo preswyl, ond mae mynediad at gysylltiadau band eang cyflym hefyd yn hanfodol i fusnesau ledled y DU.<sup>20</sup> Fe wnaethom adrodd ar hyn yn flaenorol yn ein hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd<sup>21</sup> ym mis Rhagfyr 2021, ac rydym yn bwriadu darparu diweddariad arall yn ein hadroddiad ym mis Rhagfyr 2023.

Mae mynediad busnesau bach a chanolig at fand eang cyflym iawn, ffeibr llawn ac cyfradd gigabit wedi cynyddu ers y tro diwethaf i ni adrodd arno, ond mae argaeledd yn is nag ar gyfer eiddo preswyl.

**Ffigur 1: Darpariaeth band eang BBaCh yn ôl maint y busnes**

Maint eiddo busnes	Argaeledd band eang cyflym iawn	Argaeledd ffeibr llawn	Argaeledd band eang cyfradd gigabit
<b>Micro (1-9 o weithwyr ar y safle)</b>	95%	43%	72%
<b>Bach (10-49 o weithwyr ar y safle)</b>	91%	38%	60%
<b>Canolig (50-249 o weithwyr ar y safle)</b>	87%	35%	56%

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ddata darparwyr a busnesau (Ionawr 2023)*

Safleoedd microfusnesau (sy'n cyfrif am tua 90% o'r holl adeiladau busnes yn ein dadansoddiad) sydd â'r ddarpariaeth uchaf. Y rheswm am hyn yw bod adeiladau microfusnesau yn aml wedi'u lleoli mewn ardaloedd preswyl ac yn gallu defnyddio gwasanaethau preswyl. Er bod ein dadansoddiad yn dangos bod y ddarpariaeth yn is ar gyfer safleoedd busnes canolig, nid yw ein data darpariaeth rhwydwaith yn cynnwys rhwydweithiau sy'n cael eu defnyddio'n benodol i gysylltu busnesau (e.e. nid ydym yn casglu data ar rwydweithiau penodol i linellau ar brydles, nac ar FWA sy'n canolbwyntio ar fentrau na darparwyr lloeren), felly efallai y bydd y safleoedd hyn yn gallu cael cysylltedd da drwy'r gwasanaethau amgen hyn, yn hytrach na chynnyrch band eang.

Yn ôl gwlad, Lloegr sydd â'r argaeledd mwyaf o ran band eang cyflym iawn i fusnesau bach a chanolig, a Gogledd Iwerddon sydd â'r ddarpariaeth fwyaf o ran ffeibr llawn a chyfradd gigabit. O ran adeiladau preswyl, mae darpariaeth band eang cyflym iawn, ffeibr llawn a chyfradd gigabit yn well yn gyffredinol mewn ardaloedd trefol nag ardaloedd gwledig ar gyfer pob un o'r Gwledydd – fodd bynnag, mae hyn yn arbennig o wir yn yr Alban.

---

Rydym ni wedi defnyddio cronfa ddata o adeiladau busnes, a ddarperir gan CACI, sy'n cyfateb i'n cronfa ddata o adeiladau, ar gyfer y dadansoddiad hwn ac mae ein hadroddiadau'n seiliedig ar faint yr eiddo busnes. Mae rhagor o fanylion am ein dull gweithredu ar gyfer y dadansoddiad hwn yn cael eu hegluro yn y fethodoleg a ddarperir yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

<sup>21</sup> [Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd 2021 \(gan gynnwys ffigurau Busnesau Bach a Chanolig\)](#)

Ffigur 2: Darpariaeth band eang BBaCh yn ôl Gwlad

	Argaeledd band eang cyflym iawn			Ffeibr llawn			Cyfradd gigabit		
	Cyfanswm	Trefol	Gwledig	Cyfanswm	Trefol	Gwledig	Cyfanswm	Trefol	Gwledig
<b>Lloegr</b>	95%	96%	84%	42%	43%	37%	72%	76%	40%
<b>Gogledd Iwerddon</b>	93%	98%	85%	79%	84%	70%	83%	90%	70%
<b>Yr Alban</b>	91%	96%	70%	37%	40%	22%	60%	68%	24%
<b>Cymru</b>	92%	97%	78%	43%	45%	36%	52%	58%	37%
<b>Y DU</b>	<b>95%</b>	<b>96%</b>	<b>82%</b>	<b>43%</b>	<b>44%</b>	<b>38%</b>	<b>70%</b>	<b>75%</b>	<b>40%</b>

Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ddata darparwyr a busnesau (Ionawr 2023)

## 3. Dangosfyrddau

### Band eang sefydlog

Mynediad at ffeibr llawn	Mai 2022	Medi 2022	Ionawr 2023
Y DU	37%	42%	48%
Lloegr	36%	41%	47%
Gogledd Iwerddon	83%	85%	89%
Yr Alban	36%	41%	46%
Cymru	36%	40%	45%

Mynediad at wasanaethau cyfradd gigabit	Mai 2022	Medi 2022	Ionawr 2023
Y DU	68%	70%	73%
Lloegr	69%	71%	75%
Gogledd Iwerddon	85%	87%	90%
Yr Alban	63%	64%	68%
Cymru	49%	52%	57%

Mynediad at wasanaethau cyflym iawn	Mai 2022	Medi 2022	Ionawr 2023
Y DU	96%	97%	97%
Lloegr	97%	97%	97%
Gogledd Iwerddon	93%	94%	96%
Yr Alban	94%	94%	95%
Cymru	95%	95%	96%

Mynediad at wasanaethau sydd o leiaf 10 Mbit yr eiliad	Mai 2022	Medi 2022	Ionawr 2023
Y DU	99%	99%	99%
Lloegr	99%	99%	99%
Gogledd Iwerddon	96%	97%	98%
Yr Alban	97%	97%	98%
Cymru	98%	98%	98%

## Mynediad Di-wifr Sefydlog

Ers ein diweddariad diwethaf, rydym wedi parhau i gasglu data ar gyfer Darparwyr Gwasanaeth Rhyngwryd Di-wifr (WISP) sy'n darparu gwasanaeth band eang Mynediad Di-wifr Sefydlog. Mae'r canlynol yn dangos eiddo, preswyl a masnachol, lle mae band eang teilwng ar gael drwy Fynediad Di-wifr Sefydlog.

Di-wifr Sefydlog	Mai 2022	Medi 2022	Ionawr 2023
Y DU - Gweithredwyr Rhwydwaith Symudol (MNO)	95%	95%	95%
Y DU - Darparwyr Gwasanaeth Rhyngwryd Di-wifr (WISP)	7%	7%	7%

## Cymhwysedd ar gyfer USO

Canran y cartrefi a'r busnesau nad ydynt yn gallu cael gafael ar wasanaeth band eang teilwng, sef cyflymder llwytho i lawr o 10 Mbit yr eiliad o leiaf a chyflymder llwytho i fyny o 1 Mbit yr eiliad o leiaf.

Methu cael gwasanaethau 10 Mbit yr eiliad llwytho i lawr ac 1 Mbit yr eiliad llwytho i fyny (yn gymwys o bosib am USO)	Mai 2022	Medi 2022	Ionawr 2023
Y DU	0.3%	0.3%	0.2%
Lloegr	0.2%	0.1%	0.1%
Gogledd Iwerddon	1.2%	1.0%	0.6%
Yr Alban	0.8%	0.7%	0.7%
Cymru	0.6%	0.6%	0.6%

*Nodyn 1: Dim ond os yw'r canlynol yn wir yr ydym yn ystyried bod gan eiddo "ddarpariaeth ffeibr llawn": 1. bod ffeibr ar gael yn agos at yr eiddo, fel mai dim ond cysylltiad ffeibr pwrpasol i'r eiddo sydd ei angen i ddarparu cysylltedd ffeibr llawn (o'r dechrau i'r diwedd), a 2. mai dim ond tâl cysylltu cyhoeddedig y cytunwyd arno ymlaen llaw y byddai disgwyl i'r defnyddiwr ei dalu, pe bai tâl o'r fath yn cael ei godi.*

*Nodyn 2: Mae'n bosib nad yw hyn yn cynnwys gwasanaethau band eang sydd ar gael gan rai darparwyr llai.*

*Nodyn 3: Mae'r ffigurau am y rhai a allai fod yn gymwys am USO yn cynnwys pob eiddo (preswyl a masnachol). Mae'r ffigurau am gyflymderau eraill yn cyfeirio at eiddo preswyl yn unig.*

## Darpariaeth 5G

Eiddo (awyr agored) sy'n cael darpariaeth gan o leiaf un gweithredwr	Mai 2022	Medi 2022	Ionawr 2023
Y DU	48-64%	67-78%	73-82%
Lloegr	51-67%	70-81%	76-85%
Gogledd Iwerddon	24-34%	37-44%	48-55%
Yr Alban	43-57%	57-68%	62-73%
Cymru	29-42%	46-58%	49-61%

Eiddo (awyr agored) sy'n cael darpariaeth gan bob gweithredwr	Mai 2022	Medi 2022	Ionawr 2023
Y DU	5-12%	11-20%	12-22%
Lloegr	5-13%	12-22%	13-23%
Gogledd Iwerddon	2-6%	4-8%	5-12%
Yr Alban	2-10%	6-15%	7-17%
Cymru	2-6%	4-7%	5-8%

Nodyn 4: Y trothwyon ar gyfer y Gwasanaeth 5G yw -110 dBm lle mae gennym hyder uchel yn y ddarpariaeth a -100 dBm lle mae gennym hyder uchel iawn yn y ddarpariaeth. Mae gwaith dilysu ar ragfynegiadau 5G newydd yn parhau i fynd rhagddo.

## Darpariaeth 4G

Eiddo (awyr agored) – ystod darpariaeth ar draws MNO	Mai 2022	Medi 2022	Ionawr 2023
Y DU	99-c.100%	99-c.100%	99-c.100%
Lloegr	99-c.100%	99-c.100%	99-c.100%
Gogledd Iwerddon	97-99%	98-99%	97-99%
Yr Alban	97-99%	97-99%	97-99%
Cymru	96-99%	96-99%	96-99%

Nodyn 5: Mae'r holl ddarpariaeth a adroddir yn seiliedig ar ragfynegiadau, y mae'r gweithredwyr yn parhau i'w diweddarau. O ganlyniad, gall y ddarpariaeth gwasanaethau symudol a adroddir amrywio oherwydd y modelau a ddefnyddir neu'r wybodaeth sylfaenol am ddaearyddiaeth a/neu adeiladau. Mewn rhai achosion, o ganlyniad i adrodd ar ddarpariaeth ar ganrannau cyfan, gall newidiadau bach arwain at 1 pwynt canran o newidiadau yn y ddarpariaeth a adroddir. Mae [Methodoleg Cysylltu'r Gwledydd 2022](#) yn rhoi rhagor o fanylion am sut mae darpariaeth symudol yn cael ei chyfrifo.

Ardal ddaearyddol – ystod darpariaeth ar draws MNO	Mai 2022	Medi 2022	Ionawr 2023
Y DU	79-87%	80-87%	80-87%
Lloegr	92-94%	92-94%	92-94%
Gogledd Iwerddon	88-92%	88-92%	88-92%
Yr Alban	57-74%	57-75%	57-75%
Cymru	72-85%	73-85%	74-85%

Ardal ddaearyddol sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw weithredwr (mannau di-gyswllt)	Mai 2022	Medi 2022	Ionawr 2023
Y DU	8%	8%	8%
Lloegr	2%	2%	2%
Gogledd Iwerddon	3%	3%	3%
Yr Alban	17%	17%	17%
Cymru	10%	10%	9%

Darpariaeth ar bob ffordd (mewn cerbyd) – ystod darpariaeth ar draws MNO	Mai 2022	Medi 2022	Ionawr 2023
Y DU	78-84%	79-84%	80-85%
Lloegr	84-88%	85-88%	85-89%
Gogledd Iwerddon	69-80%	69-79%	69-80%
Yr Alban	65-79%	65-79%	66-79%
Cymru	70-79%	70-80%	71-80%

Pob ffordd (mewn cerbyd) sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw weithredwr (mannau di-gyswllt)	Mai 2022	Medi 2022	Ionawr 2023
Y DU	4%	4%	4%
Lloegr	2%	2%	2%
Gogledd Iwerddon	6%	6%	6%

**Diweddariad Cysylltu'r Gwledydd: Gwanwyn 2023**

Yr Alban	7%	7%	7%
Cymru	9%	9%	9%

*Nodyn 6: Trothwyon ar gyfer gwasanaethau 4G, mewn cerbyd: (-95dBm).*

## Darpariaeth gwasanaethau llais a thestun

Eiddo (awyr agored) – ystod darpariaeth ar draws MNO	Mai 2022	Medi 2022	Ionawr 2023
Y DU	99-c.100%	99-c.100%	c.100%
Lloegr	c.100%	c.100%	c.100%
Gogledd Iwerddon	98-c.100%	98-c.100%	98-c.100%
Yr Alban	99-c.100%	99-c.100%	99-c.100%
Cymru	99%	99-c.100%	99%

Ardal ddaearyddol – ystod darpariaeth ar draws MNO	Mai 2022	Medi 2022	Ionawr 2023
Y DU	85-92%	85-93%	85-93%
Lloegr	95-98%	95-99%	95-98%
Gogledd Iwerddon	89-98%	89-98%	89-98%
Yr Alban	68-82%	68-84%	68-83%
Cymru	86-91%	86-94%	86-92%

Ardal ddaearyddol sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw weithredwr (mannau di-gyswllt)	Mai 2022	Medi 2022	Ionawr 2023
Y DU	4%	4%	4%
Lloegr	1%	1%	1%
Gogledd Iwerddon	1%	1%	1%
Yr Alban	11%	10%	10%
Cymru	5%	4%	4%

Darpariaeth ar bob ffordd (mewn cerbyd) – ystod darpariaeth ar draws MNO	Mai 2022	Medi 2022	Ionawr 2023
Y DU	87-95%	87-96%	87-95%
Lloegr	90-98%	90-99%	91-98%
Gogledd Iwerddon	73-94%	73-96%	73-95%
Yr Alban	77-88%	77-90%	78-89%



Cymru	82-88%	83-91%	83-89%
-------	--------	--------	--------

Pob ffordd (mewn cerbyd) sydd ddim yn cael darpariaeth gan unrhyw weithredwr (mannau digyswllt)	Mai 2022	Medi 2022	Ionawr 2023
Y DU	2%	1%	2%
Lloegr	1%	c.0%	1%
Gogledd Iwerddon	3%	2%	3%
Yr Alban	3%	3%	3%
Cymru	5%	4%	5%

*Nodyn 7: Mae ffigurau'r llais a'r testun uchod yn amodol ar ragor o wirio a chadarnhau.*

*Nodyn 8: Dyma'r trothwyon ar gyfer llais a thestun: 2G (-71dBm), 3G (-90dBm), 4G (-95dBm).*

# A1. Methodoleg dadansoddi busnes

## Darpariaeth ar gyfer mentrau busnes

A1.1 Lle byddwn yn adrodd ar argaeledd gwasanaethau band eang ar gyfer busnesau bach a chanolig, rydym wedi defnyddio proses cyfateb cyfeiriadau i gysylltu ein sylfaen rhagosodiad Cysylltu'r Gwledydd<sup>22</sup> â system dosbarthu busnes, sef y Dun and Bradstreet Business Universe. Mae'r set ddata hon yn darparu 3.4 miliwn o gofnodion ar draws dosbarthiadau busnes, gan gynnwys amaethyddiaeth, adeiladu, ariannol, bwyd, dillad, esgidiau, gwestai, bwytai, tafarndai, gwasanaeth lleol, gwneuthurwr, hamdden, diwylliannol, gweithgareddau chwaraeon, trafnidiaeth, cerbydau, tanwydd a lleoliadau busnesau cyfanwerthu. Defnyddir y set ddata yn amodol ar y priodoliadau canlynol:

- © Dun & Bradstreet Inc., 2022. Cedwir pob hawl.
- © Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. Rhif y drwydded 100020577.
- © CACI Limited 2022.

A1.2 Fe wnaethom gysylltu 2.8 miliwn (82%) o gofnodion o'r set ddata hon gan gymhwyso adnabod adeilad, stryd, a chod post i gofnodion yn Ffynhonnell Cyfeiriad yr Arolwg Ordans<sup>23</sup> i nodi Cyfeirnod Unigryw yr Eiddo (UPRN) ar gyfer pob cofnod busnes. Dim ond i godau post y gellid cyfateb 585,000 (17%) arall, ac ni ellid cyfateb 35,000 (1%) o gofnodion.

A1.3 Oherwydd y ddibyniaeth ar adnabod adeilad, neu stryd, a chod post, mae amwysedd yn y broses gyfatebu. Cynhaliwyd dadansoddiad pellach gennym i gael gwared ar gofnodion busnes lle nad oeddem yn hyderus yn y canlyniad cyfatebol. Yn olaf, fe wnaethom gyfyngu'r dadansoddiad i'r 2.12 miliwn o gofnodion sydd o fewn ein sylfaen rhagosodiad safleoedd Cysylltu'r Gwledydd.

A1.4 Mae'r diffiniad o fentrau bach a chanolig yn seiliedig ar nifer y gweithwyr ar y safle penodol. Dyma'r categorïau o fusnesau bach a chanolig:

- Micro: Unig fasnachwr a llai na 10 o weithwyr.
- Bach: 10 i lai na 50 o weithwyr.
- Canolig: 50 i lai na 250 o weithwyr.

Dylid nodi nad yw ein data darpariaeth yn cynnwys rhwydweithiau sy'n cael eu defnyddio'n benodol i gysylltu busnesau (yn benodol, nid ydym yn casglu data ar rwydweithiau penodol llinellau ar brydles), ac felly efallai y bydd y safleoedd busnes hyn yn gallu cael cysylltedd da, er drwy linellau ar brydles yn hytrach na chynnyrch band eang.

---

<sup>22</sup> Mae [Methodoleg Cysylltu'r Gwledydd 2022](#) yn esbonio sut rydyn ni'n nodi, yn cynnwys ac yn categorio eiddo er mwyn llunio ein sylfaen rhagosodiad.

<sup>23</sup> Y cynhyrchion cyfeiriadau a ddefnyddir ar gyfer diweddariad Gwanwyn 2023 yw OS AddressBase Premium Epoch 98 ac OS AddressBase Islands Epoch 98.